# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Hydref 2023

Amser: 09.00 - 09.12

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.15pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

Dydd Mawrth 10 Hydref 2023

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (45 munud)

Dydd Mawrth 17 Hydref 2023

- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24 (60 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diogelwch Adeiladau (30 munud)~~ – *gohiriwyd*
- ~~Datganiad gan Weinidog yr Economi: Gwerth Cymdeithasol a Llesiant Economaidd (30 munud)~~ – *gohiriwyd*

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 25 Hydref 2023 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Huw Irranca-Davies (Ogwr) (30 munud)

### 3.4 Cynigion Deddfwriaethol Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol ar 11 Hydref:

**Peredur Owen Griffiths**

**NNDM8368**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gŵn.
2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) hyrwyddo diogelwch cymunedol yn dilyn nifer cynyddol o ymosodiadau difrifol gan gŵn ledled Cymru gan gynnwys rhai marwolaethau trasig;

b) cyflwyno canllawiau a rheoliadau i unrhyw un sy'n dymuno bod yn berchen ar fridiau cŵn penodol, lle mae'n rhaid i berchnogion gyflawni meini prawf penodol i fod yn berchen ar gi a allai fod yn beryglus;

c) ymgynghori â rhanddeiliaid i sefydlu diffiniad o gi a allai fod yn beryglus;

d) gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu partneriaethau i weinyddu'r rheoliadau a chyflawni dull gweithredu cyson ar draws Cymru; ac

e) hyrwyddo mentrau lleol a chenedlaethol gyda'r nod o wella lles anifeiliaid, gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ac addysgu'r cyhoedd ynghylch perchnogaeth gyfrifol ar gŵn.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i amserlennu’r cynnig canlynol ar 15 Tachwedd:

**Jenny Rathbone**

**NNDM8366**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n atal gwerthu e-sigaréts untro.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

(a) atal e-sigaréts untro rhag cael eu gwerthu;

b) cyflawni cyfrifoldebau byd-eang Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

c) mynd i'r afael â'r ffaith bod e-sigaréts untro yn berygl i iechyd y cyhoedd;

d) diogelu cenedlaethau'r dyfodol rhag problemau iechyd gan gynnwys niwed i’r ysgyfaint; ac

e) rhoi’r gorau i ddefnyddio lithiwm mewn cynhyrchion untro.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr amserlen ar gyfer cyllideb 2024-25

Nododd y Pwyllgor Busnes yr ymateb gan y Pwyllgor Cyllid a chytunodd i adolygu'r amserlen ar gyfer craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 fel y cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Pwyllgor Cyllid, o ganlyniad, yn bwriadu cwrdd yn ystod y toriad ddydd Mercher 20 Rhagfyr i ddechrau ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn gwneud cais i Aelodau'r Pwyllgor ymgymryd â busnes y Pwyllgor ym Mrwsel

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cais, a chytunodd i gais Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gael eu hesgusodi o'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 15 Tachwedd 2023 er mwyn ymgymryd â busnes y Pwyllgor ym Mrwsel.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

### 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheol Sefydlog 26C - Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes nifer o sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar ôl iddo ystyried y Bil Cydgrynhoi cyntaf a gyflwynwyd yn y Senedd, sef Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a chytunodd i gynnal adolygiad cyfyngedig o'r Rheolau Sefydlog perthnasol cyn cyflwyno'r Bil Cydgrynhoi nesaf, a chyn yr adolygiad llawn y bwriedir ei gynnal yn ddiweddarach yn ystod y Senedd hon.